

## **CYFLWYNIAD**

### **Hysterocontrastsonograffi (HyCoSy) - gwybodaeth**

Fe'ch cynghorwyd gan eich Arbenigwr Ffrwythlondeb i gael gweithdrefn o'r enw Hysterocontrastsonograffi (HyCoSy).

#### **Sut i drefnu apwyntiad HyCoSy?**

Ar ddiwrnod cyntaf eich mislif, ffoniwch swyddfa trefnu apwyntiadau HyCoSy ar 01633 238583 rhwng 08:30am a 16:30pm i drefnu eich gweithdrefn. Ffoniwch ddydd Llun os bydd eich mislif yn dechrau ar benwythnos. Rhowch wybod i ni os ydych yn credu bod gennych alergedd i latecs. Fel arfer, bydd y prawf yn cael ei wneud 14 diwrnod ar ôl i'ch mislif ddechrau ond os oes prinder apwyntiadau, efallai y gofynnir i chi ffonio'n ôl pan fydd eich mislif nesaf yn dechrau.

Os nad yw'r apwyntiad a drefnwyd i chi yn gyfleus mwyach ffoniwch swyddfa trefnu apwyntiadau HyCoSy gan y bydd hyn yn galluogi'r staff i roi eich apwyntiad i rywun arall a byddant yn gallu trefnu dyddiad ac amser arall i chi. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am eich apwyntiad neu'r weithdrefn, cysylltwch â swyddfa trefnu apwyntiadau HyCoSy ar y rhif ffôn: 01633 238583

Rydym eisiau eich cynnwys yn yr holl benderfyniadau am eich gofal a'ch triniaeth. **Mae eich cydsyniad ffurfiol yn ofynnol ar gyfer yr ymchwiliad hwn.** Ysgrifennwyd y llyfryn hwn er mwyn eich galluogi i wneud penderfyniad gwybodus mewn perthynas â chytuno i'r weithdrefn.

Mae ffurflen gydsynio ar gefn y llyfryn hwn.

Mae'r **ffurflen gydsynio yn ddogfen gyfreithiol** felly darllenwch hi yn ofalus. Pan fyddwch wedi darllen ac wedi deall yr holl wybodaeth, gan gynnwys y posibilrwydd o gymhlethdodau, ac rydych chi'n cytuno i gael y weithdrefn, llofnodwch a rhowch y dyddiad ar y ffurflen gydsynio. Byddwch yn sylwi bod y ffurflen gydsynio wedi'i dyblygu, cadwch gopi ar gyfer eich cofnodion, felly llenwch hi tra bydd ynghlwm o hyd wrth y llyfryn hwn.

Fodd bynnag, os oes rhywbeth nad ydych yn ei ddeall neu yr hoffech ei drafod ymhellach, peidiwch â llofnodi'r ffurflen ond dewch â hi gyda chi a'i llofnodi ar ôl i chi siarad â Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol.

## **Beth yw Hystero Contrast Salpingogram (HyCoSy)?**

Mae HyCoSy yn brawf uwchsain arbennig a wneir ar gleifion allanol i ddangos a yw eich tiwbiau Ffallopio ar agor (heb eu rhwystro). Gall hefyd helpu i ganfod problemau o fewn y groth a leinin y groth (endometriwm). Mae lliw yn cael ei basio drwy geg y groth i amlinellu'r ceudod a'r tiwbiau. Mae'r lliw i'w weld ar sganiau uwchsain mewnol (trawsweiniol).

## **Pam mae angen HyCoSy arnaf?**

Efallai y bydd HyCoSy yn ein helpu i sefydlu'r rheswm nad ydych yn beichiogi a phenderfynu ar driniaeth briodol i chi. Yn y tiwbiau Fallopio y mae'r wy benywaidd yn cyfarfod â'r sberm gwrywaidd i ffrwythloni'r wy. Mae'n bwysig bod eich tiwbiau Fallopio ar agor fel y gall hyn ddigwydd - os oes rhwystr gallai eich atal rhag beichiogi. Nid yw'n bosibl gweld y tiwbiau gyda phelydrau-x neu uwchsain arferol felly mae angen gweithdrefn arbenigol fel hon.

## **Beth yw manteision HyCoSy?**

HyCoSy yw un o'r gweithdrefnau arbenigol sydd ar gael i asesu eich tiwbiau Fallopio a cheudod crothol. Mae'n ddewis amgen i hysterosalpingograffi (HSG) sy'n cynnwys amlygiad ymbelydredd (pelydr-X) neu laparosgopi sy'n driniaeth lawfeddygol sy'n gofyn am anesthetig cyffredinol.

## **Beth nad yw'r HyCoSy yn ei ddweud wrthym?**

Nid yw'r HyCoSy yn gallu dweud wrthym a oes gennych adlyniad (meinwe craith) o amgylch eich tiwbiau Fallopio neu endometriosis. Dim ond drwy laparosgopi y gellir diagnosio'r rhain. Os na welir bod y lliw yn pasio drwy un neu'r ddau diwb, gall hyn awgrymu rhwystr. Gall rhwystr o'r tiwbiau Fallopio ddigwydd ar ôl haint y pelfis neu lawdriniaeth y pelfis. Os amheuir rhwystr, efallai y bydd angen i ni gadarnhau hyn drwy ail brawf gan ddefnyddio techneg wahanol, naill ai dull pelydr-X o'r enw HSG neu laparosgopi.

## **Beth yw risgiau HyCoSy?**

Os ydych yn feichiog: Gallai'r driniaeth achosi camesgoriad a gallai pelydr-X niweidio'r babi sy'n datblygu. Dyna pam rydym yn trefnu eich apwyntiad, pryd bynnag y bo modd, ar ôl mislif, ac yn eich cynghori i osgoi cyfathrach rywiol o ddechrau eich mislif tan ar ôl y weithdrefn.

**Haint:** mae risg fach o haint y pelfis yn dilyn y weithdrefn o tua 1 mewn 100 o achosion. Fel rhagofal, efallai y byddwn yn rhagnodi gwrthfotigau i ddarparu ar gyfer y risg hon o haint. Os ydych yn amau y gallech gael haint (e.e. tymheredd, poen, gwaedu ac arllwysiad o'r wain sy'n aroglu'n wael) dylech gysylltu â'ch meddyg teulu neu gysylltu â'r Uned Asesu Gynaecoleg Frys yn Ysbyty Athrofaol y Grange.

**Alergedd:** mae'n eithriadol o brin cael adwaith alergaidd i'r "lliw", ond os oes gennych unrhyw alergeddau hysbys rhaid i chi roi gwybod i ni cyn y weithdrefn.

**Poen:** mae'n bosibl y bydd poen tebyg i boenau'r mislif, ond mae hyn gwella yn syth ar ôl i'r archwiliad ddod i ben. Er mwyn lleihau faint o anghysur y gallech ei brofi; rydym yn argymhell eich bod yn cymryd dwy dabled 200mg o Ibuprofen a/neu ddwy dabled 500mg o Paracetamol (os nad oes gennych alergedd i'r rhain) awr cyn y weithdrefn. Ar yr achlysur prin, efallai y bydd angen cyfnod hirach o arsylwi yn yr ysbyty a dull lleddfu poen cryfach (prin).

**Llewygu:** weithiau efallai y byddwch yn teimlo'n "wan" yn ystod neu ar ôl y weithdrefn, felly rydym yn eich cynghori i orwedd am ychydig funudau. Fe'ch cynghorir i ddod â rhywun gyda chi i fynd â chi adref.

**Twll yn y groth:** mae'n anghyffredin iawn i offeryn meddygol (y cathetr neu'r prawf canllaw) wneud twll yn y groth yn ystod y weithdrefn hon. Efallai y bydd angen arsylwi pellach yn yr ysbyty neu archwiliad.

**Yr angen am brofion pellach:** Gyda menywod sydd â stenosis o'r serfics, gall fod braidd yn anodd mewnosod y cathetr i'r gamlas serfigol er mwyn chwistrellu'r lliw.

Gall ymlediad annigonol (ehangu) o geudod y groth gyda'r lliw hefyd ein hatal rhag cael delweddau uwchsain o ansawdd da. Gall hyn ddigwydd yn enwedig gydag adlyniadau'r groth (creithiau) neu dyfiannau anfalaen mawr o'r enw ffibroidau, a all ddifodi ceudod y groth.

Mewn 5 o bob 100 o weithdrefnau HyCoSy, mae'r lluniau a gynhyrchir yn aneglur ac os yw hyn yn digwydd efallai y bydd angen profion pellach arnoch.

Nid oes unrhyw brawf gwirio tiwbiau 100% yn gywir o ran dangos tiwbiau patent, bydd HyCoSy yn awgrymu'n anghywir bod y tiwbiau wedi'u rhwystro mewn 5 o bob 100 o fenywod sydd â thiwbiau patent.

### **Pryd yw'r amser gorau i gael yr HyCoSy?**

Mae'n bwysig iawn nad ydym yn gwneud y weithdrefn os oes unrhyw siawns y gallech fod yn feichiog. Mae HyCoSy yn peri risg o gymhlethdodau i unrhyw feichiogrwydd felly rydym yn eich cynghori i beidio â chael cyfathrach rywiol (neu mae'n rhaid i chi ddefnyddio dulliau atal cenhedlu rhwystrol) o ddechrau'r mislif tan yr apwyntiad HyCoSy. Byddwn yn gofyn i chi lofnodi ymwadiad nad ydych yn feichiog.

Yr amser gorau i gyflawni'r prawf yw cyn gynted â phosibl ar ôl i'ch mislif ddod i ben. Mae hyn fel arfer rhwng diwrnodau 6-14 eich cylch, ond gellir ei wneud unrhyw bryd drwy gydol eich cylch os nad oes siawns eich bod yn feichiog.

Os byddwch yn cael eich mislif ar ddiwrnod y prawf, ni fydd yn bosibl ei wneud. Caiff dyddiad casglu arall ei gynnig.

## **Beth sydd angen i chi ei wneud i baratoi ar gyfer HyCoSy?**

- Gallwch fwyta ac yfed fel arfer cyn ac ar ôl eich apwyntiad.
- Dylech gymryd dwy dabled 200mg o Ibuprofen a/neu ddwy dabled 500mg o Paracetamol (os nad oes gennych alergeddau neu anoddefiadau) awr cyn y weithdrefn.
- Dylech gymryd y gwrthfotigau (yn unol â chyfarwyddyd yr Arbenigwr Ffrwythlondeb).
- Dylech osgoi cyfathrach rywiol (neu rhaid i chi ddefnyddio dulliau atal cenhedlu rhwystrol) yn ystod cylch eich apwyntiad HyCoSy, a byddwn yn gofyn i chi lofnodi ymwadiad nad ydych yn feichiog.
- Dylech fynychu gyda phledren lawn yn barod i roi sampl wrin ffres ar gyfer profion beichiogrwydd ar ddiwrnod eich HyCoSy.
- Dylech ddod â'ch ffurflen gydsynio wedi'i llofnodi a fydd yn cael ei chadarnhau gan yr Arbenigwr Ffrwythlondeb.

## **Beth sy'n digwydd yn ystod HyCoSy?**

- Gofynnir i chi wagio'ch pledren gan gadw sampl i'r nyrs gynnal prawf beichiogrwydd.
- Bydd HyCoSy yn cael ei gynnal mewn ystafell weithdrefn ar sail cleifion allanol. Gwneir pob ymdrech i sicrhau ein bod yn parchu eich urddas drwy gydol eich arhosiad.
- Mae eich coesau'n cael eu rhoi mewn gwartholion a bydd gorchudd yn cael ei roi dros eich corff is a gwneir uwchsain trawsweiniol (mewnol) i ddechrau. Mae hyn yn golygu mewnosod prawf y tu mewn i'r waun i gael delwedd glir o'r groth a'r ofariau cyn yr HyCoSy. Mae'r prawf wedi'i orchuddio ag amwisg latecs. (Rhowch wybod i'r clinigwr os oes gennych alergedd latecs)
- Gosodir sbectrum yn y wain (fel cael prawf rhwbiad).
- Yna caiff cathetr plastig tenau wedi'i atodi i chwistrell ei basio drwy geg y groth (serfics).

- Mae dŵr a lliw yn cael ei chwistrellu drwy'r cathetr. Mae llif y dŵr a'r lliw yn cael ei arsylwi yn y groth a'r tiwbiau Fallopio gydag uwchsain mewnol. Bydd unrhyw ddelweddau a gymerir yn cael eu cofnodi yn eich nodiadau meddygol. Nid yw peidio â gweld lliw yn y tiwbiau bob amser yn golygu bod y tiwbiau wedi'u rhwystro.
- Tua 30 munud yw hyd y weithdrefn.

## **Beth i'w ddisgwyl ar ôl HyCoSy?**

Efallai y byddwch yn profi rhywfaint o hylif yn draenio o'r wain neu'n cael rhywfaint o sbotiau ar ôl y weithdrefn am un neu ddau ddiwrnod felly fe'ch cynghorir i ddod â rhywfaint o ddeunyddiau glanweithdra i'w defnyddio ar ôl y weithdrefn - defnyddiwch badiau, nid tamponau ar gyfer hyn (er mwyn lleihau'r risg o haint).

- Ar ddiwedd y prawf gallwn fel arfer rannu'r canfyddiadau gyda chi. Os oes angen cynnal unrhyw brofion pellach, byddwn yn trefnu'r rhain ar yr un diwrnod a byddwn yn rhoi gwybodaeth am unrhyw brofion, triniaeth neu apwyntiadau pellach y gallai fod eu hangen arnoch. Os yw eich tiwbiau Ffallopio wedi'u rhwystro, neu os oes problemau gyda'ch croth, bydd eich meddyg yn esbonio'r opsiynau ar gyfer triniaeth.
- Gallwch fynd adref yn syth ar ôl y prawf gan fod y rhan fwyaf o fenywod yn teimlo'n iawn ar ôl y weithdrefn. Gallwch wneud gweithgareddau bob dydd arferol a pharhau i gael cyfathrach rywiol fel arfer os dymunwch.
- Nid oes angen i chi ddefnyddio dulliau atal cenhedlu nac ymatal rhag cyfathrach rywiol ar ôl y weithdrefn.
- Bydd angen i chi gwblhau cwrs gwrthfotigau a ragnodir gan eich meddyg ysbyty.

**Os oes gennych ragor o gwestiynau am y weithdrefn HyCoSy, cysylltwch â ni ar y rhifau canlynol: -**

**Swyddfa Trefnu Apwyntiadau HyCoSy - 08:30am- 16:30pm Ffôn:  
01633 238583**

**Os ydych yn profi argyfwng clinigol ar ôl eich apwyntiad,  
cysylltwch â ni ar y rhifau ffôn canlynol: -**

**Uned Triniaethau Dydd Ysbyty  
Nevill Hall - 8.00am – 4.00pm  
Ffôn: 01873 733239**

**Uned Asesu Gynaecoleg Frys, Ysbyty Athrofaol y Grange, Rhif y  
Tu Allan i Oriau: 01633 493557/ 01633 493556**

**Pwyntiau cyffredinol i'w cofio:**

- Os na allwch gadw'r apwyntiad, rhowch wybod i swyddfa trefnu apwyntiadau HyCoSy cyn gynted â phosib.
- Ein nod yw i rywun eich gweld chi a'ch archwilio cyn gynted â phosib ar ôl i chi gyrraedd. Fodd bynnag, mae'r Adran yn brysur iawn a gall eich ymchwiliad gael ei oedi. Os oes achosion brys, yn amlwg rhoddir blaenoriaeth i'r cleifion hyn dros yr achosion llai brys.
- Ni all yr ysbyty dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golli neu ddifrod i'ch eiddo personol yn ystod eich amser ar y safle hwn.

**COFIWCH LOFNODI EICH FFURFLEN GYDSYNIO YNG NGHEFN Y  
LLYFRYN A DOD Â HI GYDA CHI.**

**BYDD ANGEN I CHI DDOD Â RHYWUN GYDA CHI I FYND Â CHI  
ADREF YN DILYN Y WEITHDREFN.**

**Enw'r weithdrefn:**

**Hysterocontrastsonograffi (HyCoSy) / Hysterosonograffi Heli (Gwiriad Ceudod)**

**1. Datganiad claf**

Mae gennych hawl i newid eich meddwl unrhyw bryd, hyd yn oed ar ôl i chi lofnodi'r ffurflen hon  
Rwyf wedi darllen a deall y wybodaeth yn y llyfryn amgaeedig, gan gynnwys y manteision ac unrhyw risgiau **ac rwy'n cadarnhau fy mod wedi ymatal rhag cyfathrach rywiol neu wedi defnyddio dull atal cenhedlu rhwystrol o ddechrau fy mislif ac yn cadarnhau nad oes unrhyw siawns y gallaf fod yn feichiog.**

Rwy'n **cytuno** i'r weithdrefn a ddisgrifir yn y llyfryn hwn ac ar y ffurflen. **Rwy'n deall** na allwch roi gwarant i fi y bydd person penodol yn cynnal y weithdrefn. Fodd bynnag, bydd gan y person brofiad priodol. Pan fydd hyfforddai yn perfformio'r archwiliad ymgwymerir ag ef o dan oruchwyliaeth ymarferydd sy'n hollol gymwys.

Llofnod ..... Enw (printiwch) ..... Dyddiad .....

Os hoffech chi ofyn unrhyw gwestiynau eraill peidiwch â llofnodi'r ffurflen nawr. Dewch â hi gyda chi a gallwch ei lofnodi ar ôl i chi siarad â gweithiwr proffesiynol ym maes gofal iechyd

**2. Cadarnhau cydsyniad** (i'w gwblhau gan weithiwr proffesiynol iechyd pan fydd y claf yn cael ei dderbyn i gael y weithdrefn ac wedi lofnodi'r ffurflen o flaen llaw).

Rwyf wedi cadarnhau bod y claf/rhiant yn deall beth mae'r weithdrefn yn cynnwys, gan gynnwys y buddion ac unrhyw risgiau. Nid oes gan y claf ragor o gwestiynau ac mae'n dymuno i'r weithdrefn fynd yn ei blaen.

Llofnod ..... Dyddiad .....

Enw (printiwch) ..... Teitl y swydd.....

**3. Datganiad gweithiwr iechyd proffesiynol** (i'w lenwi gan y gweithiwr iechyd proffesiynol sydd â gwybodaeth briodol am y weithdrefn arfaethedig, fel y nodir yn y polisi cydsynio) Mewn ymateb i gais am ragor o wybodaeth, esboniwyd y weithdrefn i'r claf/rhiant. Yn benodol rwyf wedi esbonio:

**Y buddion a fwriedir:**

- I asesu ceudod y groth\*
- I weld a yw'r tiwbiau Fallopio ar agor\*

**Rwyf hefyd wedi esbonio:**

- Yr angen i ymatal rhag cyfathrach rywiol heb ddulliau diogelwch o ddechrau'r mislif tan ar ôl y weithdrefn
- Yr angen am boenladdwr

**Risgiau sylweddol, anochel neu rai sy'n digwydd yn gyffredin:**

- Haint gan gynnwys clefyd ymfflamychol y pelfis (1 o bob 100),
- Gwaedu
- Poen
- Gellir rhoi'r gorau i'r weithdrefn os nad yw hi'n dechnegol bosibl (oherwydd poen neu serfics tynn, caeedig)
- Niwed i ddatblygu bechiogrwydd

Rwyf hefyd wedi trafod beth mae'r weithdrefn yn debygol o gynnwys, buddion a risgiau unrhyw driniaethau amgen sydd ar gael (gan gynnwys dim triniaeth) ac unrhyw bryderon posibl o'r rhai dan sylw.

Llofnod ..... Dyddiad .....

Enw (printiwch) ..... Teitl y swydd .....

**4. Datganiad y cyfieithydd ar y pryd** (Ile y bo'n briodol) rwyf wedi cyfieithu'r wybodaeth uchod i'r claf ar y pryd hyd eithaf fy ngallu ac mewn ffordd rwy'n credu y gall ei deall.

Llofnod ..... Dyddiad .....

Enw (printiwch) ..... Teitl y swydd .....